Llythyr penderfynu ar yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2024-25

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

—

Independent Remuneration Board of the Senedd

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
remunerationboard.wales
0300 200 6565

Dyddiad | Date: 28 Mawrth 2024

Pwnc | Subject: Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer 2023/24

Cynhaliodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol ymarfer ymgynghori ar ei Benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer 2024/25, yn unol â'i ddyletswydd o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Bwrdd rhwng 18 Rhagfyr 2023 a 26 Ionawr 2024. Rhannwyd yr ymgynghoriad ar Twitter, cafodd ei hyrwyddo ar fewnrwyd a gwefan y Senedd, a chafodd neges uniongyrchol ei hanfon at randdeiliaid y Bwrdd. Ystyriodd y Bwrdd yr ymatebion hyn yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror a chytunodd ar Benderfyniad diwygiedig yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2024.

Cafodd y Bwrdd 10 o ymatebion, a restrir isod. Dim ond dau gynnig oedd yn peri pryder, ac mae'r Bwrdd wedi ymateb drwy ddiwygio'r cynigion yn unol â hynny. Hoffai'r Bwrdd ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn ddefnyddiol o ran llywio penderfyniadau'r Bwrdd ac rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a gymerwyd gan y rhai a ymatebodd.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol, roeddwn i'n meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol darparu mwy o gyd-destun ar y bwriadau y tu ôl i benderfyniadau'r Bwrdd ar y meysydd a gynhyrchodd sylwadau, felly nodir canlyniad yr ymgynghoriad mewn perthynas â phob cynnig yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Awgrymodd yr Adolygiad Blynyddol sawl newid i'r Penderfyniad a gododd o'r adolygiad thematig symleiddio, dan arweiniad Hugh Widdis. Mae'n galonogol bod y rhan fwyaf o'r cynigion hyn wedi cael eu croesawu mor gadarnhaol a bod yr ymatebion yn amlygu y bydd amser ac ymdrech yn cael eu harbed o ganlyniad i weithredu'r newidiadau.

Nod yr adolygiad symleiddio yw ei gwneud mor syml â phosibl i Aelodau a'u staff ddeall pa gyllid fydd ar gael a sut i'w hawlio, ac i Gomisiwn y Senedd gymhwyso'r drefn mewn modd cyson, a chan olygu llai o risg o anghydfod. I'r perwyl hwn, rwy'n croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar y Penderfyniad y gellir ei symleiddio, a byddaf yn trosglwyddo unrhyw awgrymiadau a allai fod yn berthnasol i waith y Comisiwn.

Mae'r Bwrdd wedi dechrau'r gwaith hwn ym mhob un o'i adolygiadau thematig, sy'n cynnwys cymorth staffio; tâl a chymorth personol Aelodau; lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol; symleiddio a ffyrdd o weithio. Rydym wedi cael adborth ar y rhain, ac rydym yn parhau i groesawu hyn. Codwyd rhai materion yn ystod yr ymgynghoriad a fydd yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o'r adolygiadau hyn. Edrychaf ymlaen at ganlyniadau'r adolygiadau a fydd yn cryfhau ac yn datblygu'r gefnogaeth i'r Aelodau a'u staff yn nhymor nesaf y Senedd.

Cofion gorau

Dr Elizabeth Haywood,
Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: Penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol: Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2024-25

Cynnig 1: Newid y geiriad ym mharagraff 2.3.8 fel a ganlyn:

'Rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno o fewn tri mis ar ôl diwedd y mis y mae'r gwariant yn perthyn iddo, oni bai bod amserlen wahanol yn cael ei rhoi gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau (er enghraifft ar ddiwedd y flwyddyn ariannol) neu oni bai bod yr Aelod yn gallu rhoi ~~cyfiawnhad rhesymol~~cyfiawnhad eithriadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes angen talu'n uniongyrchol i gyflenwr, er mwyn i'r taliad gael ei wneud i'r cyflenwr yn unol â pholisi Comisiwn y Senedd. Os cyflwynir cais yn hwyr (ar ôl tri mis), heb ~~gyfiawnhad rhesymol~~ gyfiawnhad eithriadol, bydd hynny yn arwain at wrthod y cais. Aelodau o'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a fydd yn asesu a yw'r rhesymau dros geisiadau hwyr yn ddigonol, a gallant gyfeirio achosion lle ceir amheuaeth neu achosion lle ceir materion newydd neu ddadleuol at y Prif Weithredwr a'r Clerc i gael eu penderfynu.'

1. Roedd amheuon gan rai ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn yn cynyddu'r baich gweinyddol ar staff yr Aelodau. Roedd yna gais am ragor o wybodaeth am yr esboniad a'r rhesymeg dros gyflwyno'r newid o resymau 'rhesymol' i resymau 'eithriadol' dros hawliadau hwyr. Roedd pryder hefyd y byddai'r cynnig hwn yn cynyddu apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiwn y Senedd a fyddai'n cymryd amser ac adnoddau'r Aelodau a staff y Comisiwn. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i newid 'gall' i 'bydd' yn y frawddeg olaf.

2. Dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd ('y Prif Weithredwr') y byddai'r cynnig yn rhoi eglurder ar gyfer trin hawliadau a thrwy leihau nifer yr hawliadau hwyr y byddai'n bosibl rhoi mwy o gywirdeb i'r Aelodau ar eu gwariant yn erbyn cyllidebau a ddyrennir.

3. Nododd y Bwrdd bryderon y rhai a ymatebodd a'r potensial am fwy o apeliadau yn erbyn penderfyniadau ar hawliadau hwyr. Ystyriodd y Bwrdd hefyd yr angen am brydlondeb wrth brosesu hawliadau er mwyn sicrhau bod gan yr Aelodau ddarlun cyfredol o'u gwariant yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd, er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu prosesu o fewn tri mis.

4. Cytunodd y Bwrdd i beidio â newid y bar ar gyfer ystyried hawliadau hwyr h.y. byddai angen 'cyfiawnhad rhesymol', yn hytrach na'r 'cyfiawnhad eithriadol' a gynigiwyd. Fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd i ddiwygio geiriad y Penderfyniad i ddangos y 'bydd' cyflwyno hawliad yn hwyr heb gyfiawnhad rhesymol yn arwain at wrthod yr hawliad. Teimlwyd bod hyn yn dileu'r anghysondeb a'r dryswch ynghylch y defnydd o'r geiriau 'rhaid' a 'gall' yn yr un paragraff.

5. Bydd y newid i'r geiriad yn galluogi'r Comisiwn i gymhwyso'r ddarpariaeth yn deg ac yn gyson wrth gynorthwyo Aelodau a'u staff gyda hawliadau. Bydd y Comisiwn yn parhau i dalu hawliadau hwyr yr Aelodau pan fo cyfiawnhad rhesymol, yn enwedig o ganlyniad i

amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth, megis anfoneb hwyr gan gyflenwr, neu yn hwyr oherwydd absenoldeb yn y swyddfa.

Canlyniad

Cytunodd y Bwrdd i ddiwygio'r Penderfyniad i ddangos y bydd cyflwyno hawliad yn hwyr (ar ôl tri mis) heb gyfiawnhad rhesymol yn arwain at wrthod yr hawliad.

Cyflogau Aelodau

6. I nodi: Bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu 3 y cant yn unol â'r mecanwaith cap a choler ym mharagraff 3.2.2., fel yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

7. Galwodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig am eglurder ar gyflogau'r Aelodau, gan ddweud bod angen i Aelodau o'r Senedd yn y dyfodol gael sicrwydd ynghylch beth yw eu cyflog tebygol. Anogodd grŵp Llafur Cymru y Bwrdd i ystyried cysylltu cyflogau'r dyfodol a chynnydd blynyddol yn uniongyrchol â graddau gwasanaeth sifil priodol er mwyn sicrhau cysylltiad uniongyrchol â chyflogau'r sector cyhoeddus. Ymatebodd unigolyn i ddweud nad oedd o blaid codi cyflog yr Aelodau.

8. Trafododd y Bwrdd y sylwadau ar gyflogau Aelodau a hoffai nodi mwy o fanylion ar sut mae cyflogau'r Aelodau yn cael eu haddasu o fewn tymor y Senedd. Mae cyflogau'r Aelodau yn cael eu haddasu bob blwyddyn, fel y nodir yn y Penderfyniad ym mharagraff 3.2.1. Cyfrifir y cynnydd canrannol drwy gyfeirio at fynegai ASHE Cymru, yn amodol ar uchafswm o 3 y cant a lleiafswm o 0 y cant.

9. Mae gallu'r Bwrdd i benderfynu ar gyflog Aelodau wedi'i nodi ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi na all y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad ar gyflogau'r Aelodau ar gyfer pob tymor yn y Senedd. Ni ellir newid y penderfyniad ar gyflogau'r Aelodau yn ystod y Chweched Senedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Felly, nododd yr ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer 2024-25 yn syml y bydd cyflogau Aelodau yn cynyddu 3 y cant.

10. Yn y wybodaeth economaidd a chyd-destunol fanwl a ystyriodd y Bwrdd yn ystod y broses ymgynghori, dangoswyd bod yr amgylchiadau economaidd heriol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi taro'r rhai sydd â'r cyflogau isaf galetaf. O'r herwydd, er bod y Bwrdd wedi cytuno ar Benderfyniadau eithriadol i wneud taliadau costau byw i Staff Cymorth, sydd ar gyflog is, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, nid yw'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli i gyfiawnhau penderfyniad pellach ar gyflogau'r Aelodau yn y Senedd hon. Cafodd barn y Bwrdd ar y mater hwn ei lywio gan egwyddorion arweiniol y Bwrdd, sy'n cynnwys sicrhau

gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr Cymru a sicrhau bod penderfyniadau yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru a'r amgylchiadau ariannol ehangach yng Nghymru.

11. Mae'r Bwrdd wedi dechrau adolygiad thematig o Gyflog a Chymorth Personol Aelodau a fydd yn ystyried pob agwedd ar gyflogau'r Aelodau, gan gynnwys lefelau cyflog a'r mecanwaith ar gyfer addasu cyflogau yn flynyddol cyn y Seithfed Senedd.

Canlyniad:

Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd ar y mater hwn a bydd yn ystyried y materion a godwyd fel rhan o'r adolygiad thematig ar Gyflog a Chymorth Personol yr Aelodau.

Cynnig 2: Cynyddu'r swm y gellir ei ad-dalu i Aelodau am gost gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill, fel y nodir ym mharagraff 3A.3.2, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ym mis Ionawr 2024 wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf fesul mis.

12. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn.

Canlyniad:

Y lwfans ar gyfer cyfrifoldebau gofalu fydd £340 y mis.

Cynnig 3: Cynyddu'r swm ym mharagraff 4.3.1. y gall Aelodau – y mae eu cartrefi yn yr ardal fewnol, neu'r ardal ryngol – ei hawlio am lety dros nos. Bydd y ffigur newydd yn cynyddu yn unol â chyfradd CPI Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.

13. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Yn ystod eu hystyriaeth o'r cynnig hwn, bu'r Bwrdd yn ystyried gwir gost llety gwesty ym Mae Caerdydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn, yn gysylltiedig â dyddiau eistedd y Senedd. Fe wnaethant hefyd ystyried y patrwm gwariant gwirioneddol gan Aelodau ar lety gwesty, a'r amseriad a'r rhesymau i geisiadau fynd y tu hwnt i'r terfyn. Cytunodd y Bwrdd fod y dystiolaeth yn dangos bod digon o lety addas ar gael o fewn yr uchafswm a ganiateir fel y cynyddodd yn ôl cyfradd CPI Ionawr 2024. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried yr hyblygrwydd cynyddol a fydd yn codi o benderfyniadau eraill y Bwrdd yn yr Adolygiad Blynyddol hwn.

Canlyniad:

Cyfradd y lwfans blynyddol ar gyfer llety dros nos yn ardal Caerdydd ym mharagraff 4.3.1 fydd £8,208 y flwyddyn.

Cynnig 4: Cynyddu'r swm blynyddol ym mharagraff 4.4.3.(a) a 4.4.8. y gellir ei hawlio am lety dros nos ar gyfer Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol, yn unol â chyfradd CPI mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf fesul mis.

14. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Trafododd y Bwrdd dystiolaeth o gost ac argaeledd llety rhent ym Mae Caerdydd, yn benodol fflatiau un a dwy ystafell wely wedi'u dodrefnu. Nododd y Bwrdd y newidiadau i'r prisiau rhent o fewn y 12 mis blaenorol a bod dwy ran o dair o'r eiddo a hysbysebwyd i'w gosod yn costio llai na'r uchafswm a ganiateir (ac eithrio'r 10 y cant uchaf). Roedd y Bwrdd yn fodlon bod yr uchafswm a ganiateir yn sicrhau bod yr Aelodau yn gallu rhentu eiddo addas o fewn y terfyn.

Canlyniad:

Y swm blynyddol, ym mharagraffau 4.4.3.(a) a 4.4.8. y gellir ei hawlio am lety dros nos ar gyfer Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol fydd £11,760 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar lwfans o £980 y mis.

Cynnig 5: Cynyddu'r swm ym mharagraff 4.4.3.(h) sydd ar gael i Aelodau yn yr ardal allanol i'w hawlio mewn perthynas â chyfrifoldebau gofalu, yn unol â chyfradd CPI mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf.

15. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn.

Canlyniad:

Y swm fydd ar gael i Aelodau yn yr ardal allanol i'w hawlio mewn perthynas â chyfrifoldebau gofalu ym mharagraff 4.4.3.(h) fydd £1,735 y flwyddyn.

Cynnig 6: Cadw'r swm y gellir ei hawlio ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol, ym mharagraff 4.4.10.(c), ar £882.

16. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn.

Canlyniad:

Y swm y gellir ei hawlio ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol, ym mharagraff 4.4.10.(c), fydd £882 y flwyddyn.

Cynnig 7: Cynyddu'r swm, ym mharagraff 4.5.5., y gellir ei hawlio am lety dros nos y tu allan i ardal Caerdydd yn unol â chyfradd CPI mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.

17. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Trafododd y Bwrdd dystiolaeth o wir gost llety gwesty yn Llundain, Caerdydd a lleoliadau eraill ar wahanol adegau o'r flwyddyn sydd i ddod er mwyn bod yn fodlon y gall Aelodau ddod o hyd i lety addas mewn gwesty o fewn y terfyn uchaf a ganiateir. Bydd cost brecwast a pharcio yn cael ei eithrio o'r uchafswm a ganiateir.

Canlyniad:

Y swm y gellir ei hawlio ar gyfer llety dros nos, ym mharagraff 4.5.5. fydd £181 y noson am lety yn Llundain a £114 y noson ar gyfer llety mewn mannau eraill. Bydd y symiau hyn yn berthnasol i gyfanswm y gost ar gyfartaledd ar draws nosweithiau olynol pan fyddant wedi'u harchebu mewn un taliad.

Cynnig 8: Diwygio cost aros dros nos yn adran 4.5 fel bod y cyfraddau sy'n cael eu dangos ar gyfer cost ystafell yn unig, heb gynnwys taliadau ar gyfer brecwast a pharcio. Hefyd, diwygio'r Penderfyniad fel bod y swm uchaf fesul noson y gellir ad-dalu i Aelod am lety mewn gwesty ym mharagraff 4.5.5. yn berthnasol i gyfartaledd cost fesul noson mewn gwesty, pan fydd nosweithiau olynol yn cael eu harchebu mewn un taliad yn hytrach na'r gost am nosweithiau unigol.

18. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Croesawyd hyn fel newid a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar staff yr Aelodau a'r Comisiwn.

Canlyniad:

Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio fel bod y cyfraddau sy'n cael eu dangos ar gyfer cost aros dros nos yn adran 4.5 i fod ar gyfer cost ystafell yn unig, heb gynnwys brecwast a pharcio.

Bydd hefyd yn cael ei ddiwygio i ddangos y bydd yr uchafswm fesul noson am ystafell westy ym mharagraff 4.5.5. yn berthnasol i gyfartaledd cost gwesty fesul noson, pan fydd nosweithiau olynol yn cael eu harchebu mewn un taliad.

Cynnig 9: Egluro'r rheolau ynghylch llety mewn gwesty fel y gall Aelodau hawlio am gost gwesty y tu allan i ardal Caerdydd os nad ydynt yn gallu dod o hyd i westy yn ardal Caerdydd am resymau cost neu argaeledd yn ystod wythnos eistedd, at ddibenion cymryd rhan ym musnes y Senedd. Gellir hawlio'r gost hon o dan adran 4.3 (ardal ryngol) neu baragraff 4.4.8 (ardal allanol), yn amodol ar y meini prawf arferol.

19. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Cafodd ei groesawu gan grŵp Plaid Cymru a Jane Dodds AS fel modd o ddelio â'r heriau o sicrhau llety mewn gwesty ar adegau pan fydd digwyddiadau mawr yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd. Dywedodd y Prif Weithredwr, o gael

aros y tu allan i ardal Caerdydd, byddai gan Aelodau hyblygrwydd, a byddai'n cynnig gwell gwerth am arian.

Canlyniad:

Bydd y rheolau yn cael eu hegluro fel y gall Aelodau hawlio am gost gwesty y tu allan i ardal Caerdydd os nad ydynt yn gallu dod o hyd i westy yn ardal Caerdydd am resymau cost neu argaeledd yn ystod wythnos eistedd, at ddibenion cymryd rhan ym musnes y Senedd. Gellir hawlio'r gost hon o dan adran 4.3 (ardal ryngol) neu baragraff 4.4.8 (ardal allanol), yn amodol ar y meini prawf arferol.

Cynnig 10: Dileu'r gofyniad i Aelod ofyn am gytundeb ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd cyn mynd i gostau am deithiau ac arosiadau dros nos y tu allan i Gymru, o fewn y DU.

20. Gwnaeth y grwpiau gwleidyddol roi sylwadau ar y cynnig hwn i ddweud eu bod yn ei groesawu, ac y bydd yn lleihau'r baich gweinyddol ar Aelodau, eu staff yn eu swyddfeydd a Chomisiwn y Senedd.

21. Cefnogodd y Prif Weithredwr y cynnig hefyd, gan nodi bod nifer y ceisiadau am deithio y tu allan i Gymru ar fyr rybudd wedi cynyddu, a bod dileu'r gofyniad am gymeradwyaeth ymlaen llaw yn lleihau'r baich ar Aelodau a'u staff cymorth.

22. Mae'r Bwrdd yn fodlon y bydd yr egwyddorion sy'n gofyn am werth am arian a rhesymoldeb, ac yn ei gwneud yn ofynnol i wariant ymwneud â chyflawni dyletswyddau'r Aelod, yn parhau i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu'n effeithiol.

Canlyniad:

Bydd y gofyniad i Aelodau ofyn am gytundeb ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd cyn mynd i gostau am arosiadau dros nos y tu allan i ardal Caerdydd, o fewn y DU, yn cael ei ddileu.

Cynnig 11: Diwygio'r gofynion ar gyfer hawliadau teithio a llety rhyngwladol i ganiatáu i Aelod gyflwyno un achos busnes mewn perthynas ag ymweliad gan fwy nag un Aelod, o dan baragraffau 4.5.3. a 5.15.2., yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i bob Aelod gyflwyno achos busnes unigol.

23. Roedd y grwpiau gwleidyddol a ymatebodd i'r cynnig hwn yn croesawu'r symleiddio hwn, gan ei alw'n gam synhwyrol o ran lleihau dyblygu gwaith papur.

24. Roedd y Prif Weithredwr hefyd yn cefnogi'r cynnig hwn, a fydd yn symleiddio'r broses ar gyfer ystyried ceisiadau gan Aelodau am deithiau rhyngwladol, ar adeg pan mae nifer y ceisiadau yn cynyddu.

Canlyniad:

Bydd y gofynion ar gyfer hawliadau teithio a llety rhyngwladol yn cael eu diwygio i ganiatáu i Aelod gyflwyno un achos busnes mewn perthynas ag ymweliad gan fwy nag un Aelod.

Cynnig 12: Nodi'n glir bod trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer costau llety ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Senedd ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad, gan adlewyrchu'r trefniadau sydd eisoes ar waith.

25. Gwnaeth Plaid Cymru ymateb i ddweud eu bod yn croesawu'r cynnig. Roedd y Prif Weithredwr yn cefnogi'r cynnig hwn, gan nodi y bydd yn darparu eglurhad ar gyfer Aelodau.

Canlyniad:

Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i ddangos bod trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer costau llety ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Senedd ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad.

Cynnig 13: Cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, ym mharagraff 6.1.2., yn unol â chyfradd CPI mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £10 agosaf.

26. Nododd y Bwrdd fod yr holl grwpiau gwleidyddol a Jane Dodds AS wedi tynnu sylw at gostau uchel parhaus ynni a'r straen y mae hyn yn ei roi ar y gyllideb ar gyfer costau swyddfa. Galwodd Plaid Cymru am roi ystyriaeth bellach i gynyddu'r lwfans i Aelodau rhanbarthol gan eu bod yn cwmpasu ardal llawer mwy. Gofynnwyd i'r Bwrdd ddarparu cadarnhad o gyfanswm y gyllideb cyn gynted â phosibl er mwyn gallu cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

27. Nododd y Bwrdd y pwysau cost posibl a amlygwyd gan y Prif Weithredwr. Cafodd y Bwrdd gyfarfod anffurfiol gyda chynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau gwleidyddol a swyddfa Jane Dodds AS i roi syniad o'r lwfans diwygiedig ar gyfer 2024-25 yn gynnar ym mis Mawrth 2024.

Canlyniad:

Cyfanswm y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr fydd £26,630 y flwyddyn os yw'r Aelod yn cadw swyddfa yn yr etholaeth neu'r rhanbarth; a £10,880 y flwyddyn os yw'r Aelod yn cyflawni dyletswyddau o Dŷ Hywel, Bae Caerdydd, yn unig.

Nododd y Bwrdd y sylwadau ar gostau swyddfeydd rhanbarthol yr Aelodau a'r pryderon am gost ynni. Mae'r rhain wedi cael eu cyfeirio at y grŵp adolygu thematig Ffyrdd o Weithio.

Cynnig 14: Dileu'r gofyniad i Aelodau brynu neu logi llungopïwyr gan gyflenwyr cymeradwy yn unig, ym mharagraff 6.4.1.

28. Ymatebodd yr holl grwpiau gwleidyddol, Jane Dodds AS a'r Prif Weithredwr i ddweud eu bod yn croesawu'r cynnig, gan ddweud y bydd yn rhoi mwy o ryddid i Aelodau gefnogi busnesau lleol yn eu cymunedau. Roedd yna alwad hefyd gan Jane Dodds AS i ystyried ehangu'r cynnig hwn i gynnwys offer TG eraill.

29. Mae'r Bwrdd yn croesawu adborth ar unrhyw faes o'r Penderfyniad, ac mae'r prosesau sy'n ymwneud â'i weinyddu, fel rhan o'r adolygiad thematig symleiddio a'r sylwadau a wnaed ar y cynnig hwn wedi cael eu bwydo i'r gwaith hwnnw.

Canlyniad:

Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i ddileu'r angen i Aelodau brynu neu logi llungopïwyr gan restr o gyflenwyr cymeradwy, fel y nodir ym mharagraff 6.4.1.

Cynnig 15: Datgymhwyso'r cap ar gyflogau staff yr Aelodau ym mharagraff 7.3.2 a chynyddu'r tâl i staff yr Aelodau yn unol â ffigur ASHE Cymru o 5.7% wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf. Bydd y Lwfans Gwariant Staffio Aelodau, a nodir ym mharagraff 7.1.1. yn cynyddu i £130,602 i adlewyrchu'r dyfarniad cyflog.

30. Croesawodd yr holl ymatebwyr y cynnydd mewn cyflogau gan fynegai ASHE Cymru a dileu'r cap o 3 y cant. Roedd galwadau i gael gwared â'r cap yn barhaol a galwodd Plaid Cymru am gyflwyno proses fargeinio ar y cyd er mwyn rheoleiddio cyflogau, amodau gwaith a buddion i weithwyr.

31. Nododd y Ceidwadwyr Cymreig fod y lwfans gwariant cyffredinol yn is na'r lwfans gwariant sydd ar gael i Aelodau Seneddau'r Alban a'r DU. Nododd Jane Dodds AS a Phlaid Cymru hefyd y gall lefel cyflogau staff cymorth ei gwneud hi'n anodd cystadlu â'r sector llunio polisïau ehangach a'r trydydd sector wrth recriwtio staff.

32. Nododd y Prif Weithredwr y bydd y cynnydd arfaethedig yn arwain at gynnydd yn y gyllideb uwchben y 3 y cant a ragwelir.

33. Ystyriodd y Bwrdd yr alwad i'r penderfyniad i ddatgymhwyso'r cap gael ei wneud yn barhaol. Er nad yw'r Bwrdd yn rhagweld ailgyflwyno'r cap yn y Chweched Senedd ar hyn o bryd, caniateir i'r Bwrdd wneud un Penderfyniad yn unig ar Lwfansau Staffio fesul blwyddyn ariannol, felly, bydd cyfradd y cynnydd sy'n berthnasol i gyflogau staff yr Aelodau yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf ar gyfer 2025-26.

34. Roedd yr ymatebion hefyd yn galw am fwy o hyblygrwydd i symud staff yr Aelodau i fyny'r pwyntiau cyflog (o fewn gradd cyflog) yn ystod blwyddyn ariannol os ydynt wedi ymgymryd â chyfrifoldebau newydd neu wedi ennill sgiliau a phrofiad newydd.

35. Nododd y Bwrdd fod gan yr Aelodau yr opsiwn o ailstrwythuro staff eu swyddfa er mwyn digolledu staff sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol wrth gyflenwi yn ystod absenoldebau dros dro, fel absenoldeb salwch. Cytunodd y Bwrdd i ystyried yr angen am fwy o hyblygrwydd o ran cyflogau, ac edrych ar enghreifftiau o sefyllfaoedd o'r fath sy'n cael eu rheoli gan Aelodau ar hyn o bryd a'r cyngor a'r arweiniad y mae'r Comisiwn yn eu darparu. Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r adolygiad thematig staffio.

Canlyniad:

Bydd y cap ar gyflogau staff yr Aelodau ym mharagraff 7.3.2 yn cael ei ddatgymhwyso yn 2024-25 a bydd tâl staff yr Aelodau yn cael ei gynyddu yn unol â ffigur ASHE Cymru o 5.7 y cant, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.

Er nad yw'r Bwrdd yn rhagweld ailgyflwyno'r cap ar hyn o bryd, bydd unrhyw benderfyniadau ar dâl staff cymorth ar gyfer 2025-26 yn cael eu gwneud yn y ffordd arferol fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Mae'r Bwrdd wedi cyfeirio'r sylwadau ar yr angen i gyflwyno cyfleuster i'r Aelodau i ddigolledu eu staff am gyflawni cyfrifoldebau ychwanegol am gyfnod penodol o amser i'r adolygiad thematig staffio.

Cynnig 16: I gynnwys darpariaeth yn y Penderfyniad i gynyddu yn awtomatig gyflogau unrhyw staff sy'n is na chyfraddau'r cyflog byw gwirioneddol (fel sy'n cael ei gyhoeddi bob blwyddyn gan y Sefydliad Cyflog Byw). Byddai'r ddarpariaeth yn darparu bod y gyfradd Cyflog Byw gwirioneddol yn cael ei drin fel y pwynt cyflog hwnnw am weddill y flwyddyn ariannol, gan ddod i rym ar ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw.

36. Roedd ymatebion grwpiau gwleidyddol, Jane Dodds AS ac undebau yn croesawu'r cynnig. Galwodd staff cymorth Llafur Cymru, GMB ac Unite am osod cyflogau ar ganran yn uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Yr enghraifft a roddwyd ganddynt oedd o leiaf 5 y cant yn fwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Dywedodd PCS Plaid Cymru fod y cyflog cychwynnol ar gyfer band 3, hyd yn oed gyda chynnydd o 8.6 y cant i £23,742, yn parhau i fod yn isel.

Canlyniad:

Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth i gynyddu yn awtomatig gyflogau unrhyw staff sy'n is na chyfraddau'r cyflog byw gwirioneddol.

Cynnig 17: Terfynu'r swm y gall Aelodau ei hawlio ar ran eu staff mewn perthynas â gweithio gartref, yn adran 7.9B, gan nodi bod taliad costau byw wedi'i roi yn y flwyddyn ariannol hon o £600 a bydd taliad costau byw pellach o £600 yn cael ei ddyfarnu ym mis Ionawr 2024. Mae hyn, ynghyd â'r cynnydd o £600 i'r bandiau cyflog, wedi'i gydgrynhoi o fis Ebrill 2024 a'r cynnydd i gyflogau staff yn unol â chanran ASHE Cymru yn cael ei ystyried yn gyfraniad digonol tuag at wrthbwyso costau gweithio gartref.

37. Ar wahân i'r Ceidwadwyr Cymreig, gwnaeth yr holl grwpiau gwleidyddol, Jane Dodds AS a'r undebau ddweud nad oeddent o blaid y cynnig hwn. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau bod y lwfans yn gwneud iawn am gostau ynni uwch yn sgil gweithio gartref. Hefyd, y dylid gwneud penderfyniadau ar gyflog yn annibynnol ar y rhai sy'n gweithio gartref, hynny yw, ni ddylid ystyried y lwfans ochr yn ochr â'r cyflog uwch i staff fel rhan o'r tâl am eu rôl.

38. Ysgrifennodd y Prif Weithredwr fod disgwyl i'r cynnig hwn greu arbediad bach o £3,000 a bod prosesu'r lwfans hwn yn defnyddio llawer o adnoddau o'i gymharu â'r symiau a dalwyd.

39. Roedd galw am gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn ystyried unrhyw newidiadau i'r lwfans.

40. Ar ôl ystyried yr ymatebion, cytunodd y Bwrdd i beidio â dileu'r lwfans gweithio gartref. Mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu argaeledd y lwfans hwn cyn y Seithfed Senedd.

41. Argymhellodd y Bwrdd y dylid ystyried y materion a godwyd yn yr ymatebion i'r cynnig hwn fel rhan o barhau â'r adolygiadau thematig Ffyrdd o Weithio a staffio.

Canlyniad:

Mae'r Bwrdd wedi ymateb i'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cynnig hwn. Ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r lwfans gweithio gartref. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu argaeledd y lwfans hwn cyn y Seithfed Senedd.

Cynnig 18: Diwygio'r rheolau ar gyfer staff yr Aelodau sy'n ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus o dan adran 7.9A.2. fel bod uchafswm y diwrnodau y gellir eu cymryd mewn blwyddyn yn ymwneud â blwyddyn ariannol, yn hytrach na chyfnod treigl o 12 mis.

42. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y newid yn golygu y bydd y rheolau yn cyd-fynd yn fwy priodol â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol i luoedd arfog ac yn sicrhau bod y lwfans hwn yn gyson â lwfansau eraill sy'n seiliedig ar flwyddyn ariannol. Dywedodd staff cymorth Llafur Cymru, GMB ac Unite y bydd y newid yn gwneud y trefniadau ar gyfer amser i ffwrdd yn haws i'w rheoli.

Canlyniad:

Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i ganiatáu i'r uchafswm o ddiwrnodau a ystyrir yn 'amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus' gael eu cyfrifo dros flwyddyn ariannol yn hytrach na chyfnod treigl o 12 mis.

Cynnig 19: Datgan bod y cyfraddau uchaf y gall staff Aelodau eu hawlio am ad-daliad ar gyfer teithio ac aros mewn gwesty yr un fath â chyfraddau'r Aelodau.

43. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig hwn ac roedd y rhai a wnaeth sylw, fel Plaid Cymru, yn croesawu'r eglurder a ddaw yn sgil y newid. Roedd staff cymorth Llafur Cymru, GMB ac Unite yn poeni nad yw cyfraddau gwestai yn adlewyrchu cyfradd y farchnad ar gyfer ystafelloedd gwestai, yn enwedig pan cynhelir digwyddiadau yng Nghaerdydd. Ystyriodd y Bwrdd dystiolaeth o wir gostau ac argaeledd llety mewn gwestai ar wahanol adegau o'r flwyddyn wrth iddynt ystyried y lwfans hwn, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ar gyfer anghenion yr Aelodau.

Canlyniad:

Bydd y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu bod y cyfraddau uchaf y gall staff Aelodau eu hawlio ar gyfer teithio ac aros mewn gwesty yr un fath â chyfraddau'r Aelodau.

Cynnig 20: Cynyddu cyfran y Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, ym mharagraff 8.2.1., sy'n cael ei gwario ar gyflogau staff ar gyfradd ASHE Cymru o 5.7 y cant, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf (a thaliadau costau byw £600 wedi'u cydgrynhoi a gafodd eu pennu yn flaenorol) a'r gyfran sy'n cael ei gwario ar gostau swyddfa yn ôl cyfradd CPI mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £10 agosaf.

44. Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Roedd Plaid Cymru yn dymuno ailbwysleisio eu sylwadau ar gyflogau staff mewn perthynas â'r lwfans hwn. Croesawodd Llafur y cynnydd i'r elfen cyflogau staff yn y gyllideb yn ôl mynegai ASHE Cymru, gan ddweud eu bod o'r farn ei bod yn egwyddor bwysig cynnal cydraddoldeb rhwng staff Aelodau unigol a staff y Grŵp o ran addasiadau cyflog blynyddol.

Canlyniad:

Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol fydd £1,149,341 y flwyddyn.

45. Daeth ymatebion i law gan:

Unigolyn
Unigolyn
Unigolyn
Jane Dodds AS, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd
Y Ceidwadwyr Cymreig
Grŵp Llafur Cymru
Staff Cymorth Llafur ac Undeb Unite
Cangen Undeb Plaid Cymru PCS
Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Tabl Cyfraddau ar gyfer Costau Busnes a Staffio

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r cyfraddau a nodir yn y Penderfyniad. Mae pob cost yn ddarostyngedig i'r rheolau a nodir o dan y Penderfyniad a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau; os oes gwahaniaeth, mae'r Penderfyniad yn cael blaenoriaeth.

Paragraff perthnasol yn y Penderfyniad		2024-25 Cyfradd
3A.3.2	Costau gofal plant/gofal oedolyn dibynnol	Hyd at uchafswm o £340 y mis
Gwariant ar lety		
4.3.1	Gall Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal ryngol hawlio cost ystafell mewn gwesty	Hyd at uchafswm o £114 y noson a hyd at uchafswm o £8,208 y flwyddyn
4.4.3	Caiff Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol hawlio treuliau ar gyfer rhentu eiddo wedi'i ddodrefnu o dan Opsiwn A.[1]	Hyd at uchafswm o £11,760 y flwyddyn
4.4.3 h	Caiff Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol, sy'n dewis hawlio o dan Opsiwn A, hawlio cost ychwanegol os gallant ddangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.	Hyd at uchafswm o £1,735 y flwyddyn
4.4.8	Caiff Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol ddewis hawlio cost aros dros nos yn ardal Caerdydd (gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau) o dan Opsiwn C[2] yn hytrach na hawlio o dan Opsiynau A neu B.	Hyd at uchafswm o £114 y noson, a hyd at uchafswm o £11,760 y flwyddyn
4.4.10	Caiff Aelodau sy'n hawlio o dan Opsiwn D[2] hawlio treuliau ar gyfer atgyweiriadau hanfodol	Hyd at uchafswm o £882 y flwyddyn
4.4.10(a)	Caiff Aelodau sy'n hawlio o dan Opsiwn D[2] hawlio ar gyfer llog morgais neu rhent.	Hyd at uchafswm o £11,280 y flwyddyn

[1]Dim ond o dan un opsiwn y caiff Aelodau hawlio am lety ar rent

4.5.5	Llety dros nos mewn gwesty yn Llundain	Hyd at uchafswm o £181 y noson
4.5.5	Llety dros nos mewn gwesty y tu allan i Lundain	Hyd at uchafswm o £114 y noson
Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr		
6.1.2	Os oes gan Aelodau swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod, gallant hawlio costau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg y swyddfa honno ac ymgysylltu ag etholwyr.	Hyd at uchafswm o £26,630 y flwyddyn
	Os yw'r Aelod yn cyflawni dyletswyddau o'r cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd yn unig, gallant hawlio costau yn ymwneud â rhedeg y swyddfa honno ac ymgysylltu ag etholwyr.	Hyd at uchafswm o £10,880 y flwyddyn
Cymorth staffio		
7.1.1.	Mae hawl gan Aelod i hawlio costau gwariant staffio, i gyflogi staff i alluogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau Aelod.	Hyd at uchafswm o £130,602 y flwyddyn